



DYFFRYN DULAIS

.....



CYFLWYNIAD



Mae ardal gymunedol Cwm Dulais yn cynnwys adrannau etholiadol Onllwyn, Blaendulais a'r Creunant.

Mae'r ardal gymunedol, sy'n ffinio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd, yn cynnwys nifer o atyniadau megis Amgueddfa Cefn Coed, canolfan hyfforddi DOVE a siop goffi.

Mae'r rhan fwyaf o'r ardal, a fu unwaith yn frith o byllau glo, wedi'i hadennill gan fyd natur, ac erbyn hyn mae'r golygfeydd yn heddychlon ac mae'r bywyd gwylt yn doreithiog. Yn llawn hanes, ar un adeg roedd yr ardal dan oresgyniad y Rhufeiniaid a adeiladodd ddwy gaer gerllaw. Mae olion Sarn Helen, ffordd Rufeinig bwysig a oedd yn cysylltu tref Castell-nedd yn y de â Chaernarfon yng ngogledd Cymru, wedi parhau hyd heddiw.

Mae gan Gwm Dulais sawl llwybr cerdded a beicio, coetiroedd a digonedd o fywyd gwylt.





CANFYDDIADAU ALLWEDDOL O’N HYMARFERION
CYNNWYS AC YMCHWIL:

.....



Yn ôl ymatebwyr i'r arolwg, roedd lles cymdeithasol yn ymwneud â chysylltu â phobl eraill trwy weithgareddau cymdeithasol, megis chwaraeon, corau a chyfarfodydd. O ran ffactorau cyfrannol pwysig ar gyfer lles cymdeithasol, soniwyd am gadw'n heini ac yn iach, gwirfoddoli a bod ag ymdeimlad o le yn y gymdeithas.

Roedd pobl am weld gwelliannau i fynediad i safleoedd ar gyfer pobl anabl, gyda gwasanaethau a sefydliadau i'w defnyddio gerllaw a ffordd well o roi gwybod am yr hyn sydd ar gael i alluogi pobl i gymryd rhan. Fel mewn manau eraill, nodwyd bod cludiant cyhoeddus yn her i'r rhai nad oeddent yn gallu gyrru neu nad oedd car ganddynt.





ECONOMAIDD



Yn ôl ymatebwyr i'r arolwg o'r ardal, lles economaidd yw hunangynhaliaeth ariannol a'r gallu i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Nododd ymatebwyr fod diffyg pryderon ariannol a bod â mynediad i'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt yn ffactorau sy'n cyfrannu at les economaidd.

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd darpariaeth gofal plant, cyrsiau addysgol i oedolion a thai fforddiadwy, gyda rhai'n mynegi pryder ynghylch effaith toriadau i wasanaethau a hawliadau budd-daliadau, a chynnydd yng nghost biliau cyfleustodau.

Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad diwethaf (2011) y bu 3.9% o ddiweithdra yng Nghwm Dulais a bod 34.9% o'r rhai a oedd yn 16 oed ac yn hŷn heb unrhyw gymwysterau, sy'n uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan, sef 25.9%.

O'r 2,232 o gartrefi yn yr ardal, nodwyd bod 1,534 (68.7%) yn ddifreintiedig, gan ddefnyddio un neu fwy o'r 4 dimensiwn amddifadedd canlynol: cyflogaeth, addysg, iechyd/anabledd a gorboblogi mewn aelwydydd (Cyfrifiad 2011).





Mae'r ardal yn cynnwys ucheldir gyda choedwigoedd conwydd, tir comin a ffermydd mynyddig. Mae Sarn Helen yn ymestyn ar hyd y grib uchel rhwng Cwm Dulais a Chwm Nedd ac mae Llwybr Illtud Sant, sy'n gwau'i ffordd trwy'r Creunant, yn cysylltu Cwm Nedd a Chwm Tawe.

Mae'r ardal yn tystio i'w dibyniaeth ar lo, gydag Amgueddfa Glofa Cefn Coed, safleoedd glo brig wedi'u hadfer a gweddillion tomenni glo.

Mae dros 21 o ardaloedd llawn bywyd gwyllt lleol a thri Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gan gynnwys cynefinoedd pwysig megis glaswelltir corsiog.

Mae nifer o gynlluniau trydan dŵr sy'n darparu ynni adnewyddadwy wedi cael eu hadeiladu ar y brif afon, Dulais, yn ogystal â'i hisafonydd.

Nododd preswylwyr mai mynediad i fannau agored heb eu llygru oedd y prif ffactor sy'n cyfrannu at les amgylcheddol. Roedd hyn ymysg amrywiaeth eang o faterion, megis darparu sefydliadau i warchod rhywogaethau diamddiffyn, megis brith y gors. Ystyrid bod cynnal glaswelltir corsiog o safon yn yr ardal yn bwysig i helpu i gynnal poblogaeth y rhywogaeth hon, ynghyd â phoblogaeth y gwalch-wyfn gwenydaidd ymyl gul.

Diffiniwyd lles amgylcheddol gan un preswilydd fel "Amgylchedd sydd, yn ogystal â bod yn ddiogel, yn cyfoethogi'ch bywyd". Roedd ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yn cynnwys teimlo'n ddiogel a bod â strydoedd glân, aer glân a mannau cyhoeddus agored. Mynegwyd pryder ynghylch cynnal gwasanaethau, yn enwedig o ran ailgylchu, ac i roi mwy o ystyriaeth i ofalu am yr amgylchedd.

O ran pethau a allai wella lles amgylcheddol, roedd ymatebwyr yn gofyn am ffynonellau tanwydd adnewyddadwy glân, rheoliadau amgylcheddol llymach ar gyfer adeiladau newydd ac atal adeiladu ar fannau gwyrdd pan fo safleoedd tir llwyd ar gael. Roedd rhai ymatebwyr â phroblemau symudedd yn gofyn am fwy o gefnogaeth i fwynhau'r amgylchedd a gwasanaethau lleol.





Roedd diwylliant y gymuned yn arbennig o bwysig i les diwylliannol yn yr ardal, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer addysg i oedolion, canu corawl, gwirfoddoli cymunedol, gweithgareddau crefyddol a chodi arian. Nododd pobl leol fod y sinemâu cymunedol lleol yn bwysig ac yn werth da am arian, er y teimlid nad oedd celfyddydau a digwyddiadau diwylliannol eraill yn cael eu hyrwyddo'n dda bob amser.

Mae Cwm Dulais yn cynnwys 13 o adeiladau rhestredig, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn y Creunant. Hefyd ceir llyfrgell a reolir gan y gymuned ym Mlaendulais.

Mae 11 o barciau/lleoedd chwarae yn yr ardal ar hyd o bryd. Mae gan wyth o'r rhain gyfarpar chwarae sefydlog; mae gan bedwar ohonynt ardal gemau amldefnydd. Mae Cwm Dulais yn cynnwys pedwar man gwyrdd, gan amrywio o ardaloedd amwynder anffurfiol i goetiroedd.

O ran y Gymraeg, mae 24.4% (1,156) o breswylwyr Cwm Dulais yn gallu siarad Cymraeg.

Mae nifer y bobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn ardal gymunedol Cwm Dulais yn fach, gan adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol ar draws y fwrdeistref sirol.

Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad ostyngiad yng nghanran y bobl a oedd yn disgrifio eu hunain yn Gristnogion, o 68% yn 2001 i 56% yn 2011. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd amlwg yn nifer y bobl a oedd yn nodi 'dim crefydd', o 21% i 34%.

Roedd ffactorau a allai wella lles yn cynnwys rhagor o gyfleoedd dysgu ar gyfer pobl anabl ac arian i ddod â'r gymuned ynghyd.





**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

